# ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon yr **holl** Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi eu cwblhau i fewnflwch CRIA@llyw.cymru


Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

---

*Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ers tro, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru i gael rhagor o wybodaeth.*

---



## 1. Amcanion y polisi

***Effaith pa benderfyniad ydych chi'n asesu?***

Canllawiau Llywodraeth Cymru – Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi, a ddatblygwyd i gefnogi ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb ymhlith dysgwyr. Maent yn amlinellu dulliau gweithredu at ddefnydd ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol er mwyn helpu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb ymhlith dysgwyr, ac at ddiben gwasanaethau awdurdodau lleol a phartneriaid eraill pan fydd problemau absenoldeb yn gwaethygu. Dylid mabwysiadu'r dulliau gweithredu, eu datblygu ac adeiladu arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion plant a rhieni/gofalwyr.

Nid oes unrhyw newid mewn polisïau addysg penodol, felly nod y ddogfen ganllaw hon yn hytrach yw amlinellu arferion da a awgrymir o ran dulliau gweithredu ar gyfer gwella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb ymhlith dysgwyr, a chyfeirio at ganllawiau ac adnoddau pellach.

***Pam y mae angen y canllawiau hyn.***

Bu bob amser ystod eang o nifer o ffactorau cymhleth, cysylltiedig yn aml, yn cyfrannu at ddiffyg presenoldeb plentyn yn yr ysgol. Mae rhai o'r ffactorau hynny yn deillio o'r cyfnod cyn y pandemig COVID-19, ond mae'r pandemig ei hun wedi cyflwyno ffactorau a rhagor o gymhlethdodau ac nid yw lefelau presenoldeb wedi gwella fel yr oeddem wedi ei obeithio.

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc a dylanwad mawr ar ddeilliannau, safonau a chynnydd dysgwyr. Yn hynny o beth, mae presenoldeb rheolaidd yn cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd, ac ar y ddealltwriaeth gysyniadol sydd ei hangen i astudio ymhellach a bod yn llwyddiannus yn y gweithle. Dengys gwaith dadansoddi fod cysylltiad cryf rhwng deilliannau arholiadau a chyfraddau presenoldeb, er enghraifft, lle y gall cynnydd cymharol fach yn y gyfradd absenoldeb arwain at ddeilliannau gwaeth. Gall gwersi a gollir olygu colli gwybodaeth, sgiliau a syniadau allweddol.

Mae presenoldeb da hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant emosiynol a chorfforol. Mae sefydlu patrymau presenoldeb da o oedran cynnar yn hollbwysig o ran datblygiad cymdeithasol. Er enghraifft, po fwyaf o amser y bydd plentyn yn ei dreulio gyda phlant eraill yn yr ystafell ddosbarth ac fel rhan o'r gweithgareddau ehangach a drefnir gan yr ysgol, y mwyaf tebygol y bydd yn gwneud ffrindiau, yn teimlo ei fod wedi'i gynnwys, ac yn datblygu sgiliau cymdeithasol, hyder a hunan-barch.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

***Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol chi?***

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Canfu'r ymchwiliad fod ystod eang o ffactorau cymhleth, a chysylltiedig yn aml, yn cyfrannu at absenoldeb parhaus. Mae rhai o'r ffactorau yn deillio o'r cyfnod cyn y pandemig, ond mae'r pandemig hefyd wedi cyflwyno ffactorau newydd.

Mae'r ffactorau a oedd eisoes yn bodoli, a waethygwyd gan y pandemig yn cynnwys: Tlodi, anfantais; anghenion addysgol arbennig; materion diwylliannol; dylanwad rhieni a theuluoedd ag anghenion cymhleth a lluosog; materion gorbryder, iechyd meddwl, llesiant ac ymddieithrio.

Rhesymau newydd sy'n gysylltiedig â'r pandemig dros absenoldeb: COVID-19 fel salwch, hunanynysu ac absenoldebau ar orchymyn yr ysgol; materion gorbryder, iechyd meddwl a llesiant (yn ymwneud â phryderon iechyd ac addysg).

Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod diffyg cysondeb ledled Cymru o ran cymorth i ddysgwyr sy'n ymgodymu â heriau iechyd meddwl, neu'r dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol. Roeddent yn cydnabod pwysigrwydd gallu teilwra cymorth i anghenion unigol a chyd-destunau lleol, ond ni ddylai hyn fod ar draul gwarantu cymorth cyfartal ledled Cymru.

Canfu'r Pwyllgor fod cysylltiad rhwng y cyfyngiadau a'r achosion o gau ysgolion yn sgil y pandemig ac agwedd fwy derbyniol tuag at absenoldeb o'r ysgol i rai teuluoedd. Daeth i'r casgliad ei bod yn hanfodol bod ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i atgyfnerthu negeseuon ynghylch pwysigrwydd presenoldeb ysgol.

Canfu'r ymchwiliad hefyd fod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau ychwanegol i gynnal presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, heb unrhyw reolaeth dros lawer o'r rhwystrau hynny. Amlygodd y Pwyllgor bwysigrwydd bod ysgolion yn ymwybodol o amgylchiadau unigol plentyn, a sut y gallai'r rhain effeithio ar bresenoldeb a lefelau ymgysylltu â'r ysgol. Roeddent yn arbennig o ymwybodol o'r rhwystrau a wynebir gan ofalwyr ifanc a phlant a phobl ifanc â chyflyrau meddygol neu salwch hirdymor.

Roeddent yn cydnabod y gallai rhai o'r datblygiadau arloesol sydd wedi deillio o'r pandemig, megis dysgu cyfunol, gynnig opsiwn effeithiol i helpu'r grwpiau hyn o ddysgwyr i gynnal presenoldeb a lefelau ymgysylltu. Pwysleisiodd y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd ymyrraeth gynnar i wella deilliannau i blant a phobl ifanc.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn fodlon ar y diffiniad presennol o absenoldeb parhaus. Fodd bynnag, nodwyd yr angen am gymhwyso'n gyson y diffiniad a'r lefelau gweithredu ar gyfer ymyrraeth ledled Cymru.

[Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion]

Ni chanfu'r adolygiad unrhyw fylchau mawr ar lefel polisi strategol. Mae'n ymddangos felly mai'r atebion ar gyfer gwella presenoldeb yw ailsefydlu, ymestyn a chydlynu'n well y polisïau a'r arferion da sy'n bodoli. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad fod materion yn ymwneud â llwyth gwaith ychwanegol a heriau o ran capasiti yn golygu nad oes atebion hawdd na chyflym i wella presenoldeb.

Yn yr adolygiad cafwyd themâu cyffredin ynghylch pa strategaethau fyddai'n helpu'r system ymhellach i weithio mewn ffordd fwy cydlynus. Cafodd pwysigrwydd dilyn yr egwyddorion strategol hyn ei bwysleisio'n gyson gan ystod eang o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy. Mae'r rhan fwyaf o'r themâu cyffredin hyn yn cynrychioli parhad neu ddatblygiadau naturiol polisi cyfredol, gan gynnwys parhau â'r agendâu presennol ar gyfer diwygio ADY a'r cwricwlwm, mabwysiadu dull system gyfan, canolbwyntio ar lesiant dysgwyr a staff, gyda ffocws penodol ar fabwysiadu dull dysgu sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr neu ddull dysgu mwy personol, gan gynnwys cyflwyno mwy o gyfleoedd dysgu 'cyfunol' neu ddysgu o bell, yn enwedig ar gyfer dysgwyr hŷn pan fo hynny'n briodol.

Hefyd, mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod gan ymgysylltu â theuluoedd a dull 'ysgol fro' o gyflawni'r ymgysylltiad hwn, y potensial o ddod yn bolisi uno pwysig ac yn rhan allweddol o weledigaeth hirdymor ar gyfer mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tangyflawni addysgol a waethygwyd yn sgil y pandemig. Yn ymarferol, y ffyrdd y mae ysgolion yn ceisio gwella'r cysylltedd hwn yw trwy feithrin cydberthnasau ymddiriedus, ymgysylltu a chyfathrebu, ymgynghori mewn modd gweithredol, ceisio adborth a gweithredu arno, darparu cyfleoedd dysgu ymatebol a pherthnasol ac, yn hollbwysig, deall a cheisio helpu teuluoedd i oresgyn y rhwystrau economaidd-gymdeithasol ac eraill i ddysgu, trwy weithio mewn cysylltiad ag ystod o wasanaethau ac asiantaethau cymorth allanol.

[Arolwg gan Parentkind - Understanding pupil absence in schools in Wales]

Gofynnwyd i rieni a oes gan eu plentyn unrhyw rwystrau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd ai peidio. Er bod 64% o rieni wedi dweud nad oedd eu plant yn wynebu rhwystrau o'r fath, dywedodd mwy na chwarter (27%) o rieni bod eu plant yn wynebu rhwystrau, gydag 19% yn dweud bod y rhwystrau hynny wedi gwaethygu ers y pandemig, 6% yn dweud eu bod fel yr oeddent cyn y pandemig a 2% yn dweud bod y sefyllfa wedi gwella ers y pandemig.

Disgrifiodd y rhieni ystod o rwystrau a ddylanwadodd ar bresenoldeb eu plentyn yn yr ysgol, gydag ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn nodi salwch fel ffactor allweddol, un o bob tri yn nodi bod eu plentyn yn gwrthod mynd i'r ysgol ac oddeutu un o bob pump yn nodi bod gan eu plant anghenion heb eu diwallu.

Roedd ychydig o ymatebion yn ymwneud â materion o ran bod y plentyn yn anhapus yn yr ysgol neu gydag amgylchedd yr ysgol. Er y soniwyd am fwlio gan ddisgyblion eraill, roedd rhywfaint o hyn hefyd yn ymwneud ag ymddygiad athrawon a materion ehangach, gan gynnwys rhai yn ymwneud â pholisïau ysgolion a oedd yn y pen draw yn cael effaith negyddol ar bresenoldeb, megis cyfyngu ar seibiannau toiled yn ystod gwersi yn arwain at sefyllfaoedd anodd gyda disgyblion yn mynd trwy'r mislif.

Cododd rhai ymatebion faterion yn ymwneud â theithio i'r ysgol ac oddi yno, gyda thua dwy ran o dair yn uniongyrchol gysylltiedig â materion yn ymwneud â chludiant a'r traean arall ynghylch anawsterau a brofir gan y rhiant (anableddau neu salwch fel arfer) a effeithiodd ar eu gallu i gael eu plant i'r ysgol.

Archwiliodd yr arolwg i ba raddau roedd profiad rhieni o'r rhwystrau hyn wedi newid yn dilyn y pandemig, er mwyn deall beth allai fod yn achosi'r cynnydd mewn absenoldebau yr adroddir arnynt yng Nghymru. Yn gyffredinol, ymhlith rhieni plant â phroblemau presenoldeb a nododd eu bod wedi profi rhwystrau penodol, dywedodd 4% fod y sefyllfa wedi gwella ers y pandemig, dywedodd 19% fod pethau wedi aros yr un fath ar y cyfan a dywedodd 77% bod y sefyllfa wedi dirywio ers y pandemig.

Cafwyd adborth cadarnhaol ar amserlenni gwahanol o ran yr ymyriadau cymorth a gynigir i blant â phroblemau presenoldeb, gydag ychydig dros un rhan o bump o rieni (21%) yn dweud bod yr ysgol wedi awgrymu amserlen wahanol i gefnogi eu plentyn i ddychwelyd i'r ysgol.

Mae rhieni sydd â phlentyn ag ADY neu blentyn yn yr ysgol uwchradd yn fwy tebygol o fod wedi cael yr awgrym o amserlen wahanol gan ysgol eu plentyn.

Dywedodd bron i un o bob pump (19%) o rieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb fod ysgol eu plentyn wedi awgrymu eu cyfeirio at asiantaethau eraill a allai roi cymorth iddynt i helpu eu plentyn i fynychu'r ysgol. Mae rhieni sydd â phlentyn ag ADY, plentyn yn yr ysgol uwchradd neu blentyn o leoliad trefol yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio na rhieni eraill.

Pan ofynnwyd iddynt pa gefnogaeth yr oedd eu Gwasanaeth Lles Addysg Awdurdod Lleol wedi ei gynnig i'r rhieni hyn, 'dim' oedd yr ymateb mwyaf. Yn dilyn hyn cafwyd manylion profiadau negyddol i rai, gan gynnwys llythyrau yn esbonio canlyniadau absenoldebau, tra bod rhieni eraill yn dweud eu bod yn gefnogol, gan gynnwys hwyluso atgyfeiriadau neu achosion o ddychwelyd i'r ysgol (neu mewn ambell achos i ysgol wahanol), cynnig cyngor, cyfarfodydd a gwiriadau rheolaidd, a rhoi cymorth i helpu cysylltiadau â'r ysgol.

Pan ofynnwyd iddynt pa gefnogaeth, os o gwbl, y mae eu teulu wedi ei chael yn fwyaf defnyddiol, rhannodd llawer o rieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb adborth ansoddol. Ac eithrio'r rhieni hynny a nododd 'dim' fel ateb, y thema fwyaf poblogaidd o gryn dipyn oedd staff cefnogol/amyneddgar ac yna cyfathrebu da/ cyswllt rhwydd, amserlen wahanol, a chael mynediad at dîm iechyd meddwl/llesiant.

Pan ofynnwyd iddynt pa ffyrdd eraill y gallai'r ysgol ddarparu cefnogaeth mae'r cannoedd o ymatebion yn perthyn i nifer o themâu. Y ddwy thema sy'n cael eu crybwyll fwyaf o weithiau yw bod yn fwy amyneddgar a gwell cyfathrebu/haws cysylltu, ac yna diagnosis/ymyrraeth gynharach, i'r ysgol wrando'n uniongyrchol ar y plentyn, gallu gwneud gwaith ysgol gartref, gwrando ar bryderon a chefnogaeth well, gan gynnwys cymorth ADY.

Gofynnodd nifer o rieni i rai absenoldebau gael eu hailgategoreiddio, tra dywedodd rhai rhieni y byddai'n well ganddynt pe bai ysgol eu plentyn yn rhoi'r gorau i wobrwyo presenoldeb 100%.

Dim ond nifer eithaf bach o rieni a soniodd yn benodol am faterion newydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pandemig; yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n ymddangos bod y cynnydd

mewn absenoldeb yn digwydd ymhlith disgyblion a oedd eisoes â phroblemau absenoldeb heb eu datrys yn ystod y pandemig neu a fyddai wedi profi problemau datblygol gydag absenoldeb beth bynnag.

***Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.***

Does dim newid ym mholisi Llywodraeth Cymru ynghylch presenoldeb. Yn hytrach, mae'r canllawiau'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r polisi presennol ac yn cyfeirio at yr arferion gorau.

Mae fodd bynnag nifer o feysydd polisi penodol y mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio atynt a gofynnwyd i arweinwyr polisi gyfrannu er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn cyd-fynd â'r polisïau hyn.

***Dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant meddyliol***

Mae'n hysbys iawn bod patrymau presenoldeb gwael yn aml yn gysylltiedig ag iechyd meddwl dysgwr neu broblemau llesiant. Gwelwyd cysylltiad rhwng iechyd meddwl gwael a phresenoldeb gwael yn yr ysgol yn benodol, gyda phryder yn aml yn cael ei nodi fel ffactor allweddol.

Cydnabyddir yn gyffredinol bwysigrwydd iechyd a llesiant dysgwyr, yn enwedig llesiant emosiynol a meddyliol, ar gyfer pob agwedd ar addysg a dysgu. Mae'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol yn bwysig yng nghyd-destun gwella ymgysylltiad a phresenoldeb. Mae sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc i gyd yn unigolion iach a hyderus hefyd yn un o bedwar diben gorfodol y Cwricwlwm i Gymru.

***Trafnidiaeth***

Mae diffyg cludiant rhwng y cartref a'r ysgol neu fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus yn aml yn cael eu codi fel rhwystr i blant fynychu'r ysgol. Mae'r canllawiau felly yn ailadrodd y pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol i wneud unrhyw drefniant y maent yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn helpu dysgwyr i deithio i fan lle maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno.

***ADY***

Mae cydberthynas ystadegol rhwng tlodi ac anghenion dysgu ychwanegol a chyfraddau absenoldeb uwch. Felly, mae'r canllawiau'n amlinellu pwysigrwydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.

Wrth ystyried cyfraddau presenoldeb dysgwyr ag ADY, mae'n bwysig ystyried ffactorau fel salwch (sy'n gysylltiedig â chyflyrau) ac apwyntiadau (meddygol, therapiwtig). Gyda dysgwyr sydd ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol, mae'n bwysicach ystyried eu presenoldeb gwell dros amser. Mewn llawer o achosion, bydd gan y dysgwyr hyn hanes gwael o bresenoldeb, ac efallai eu bod wedi mynychu sawl ysgol wahanol.

***Ysgolion Bro***

Gan gydweithio ar draws yr ysgol, y cartref a'r gymuned, gallwn gefnogi ein plant a'n pobl ifanc yn fwy effeithiol. Ymgysylltu â theuluoedd yw un o bileri allweddol model Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, a dangosir ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad, ymddygiad, presenoldeb a dyheadau plant a phobl ifanc.

Mae Ysgol Fro yn creu awyrgylch lle mae pob person yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, yn gallu cymryd rhan weithredol ac yn teimlo fel eu bod yn perthyn. Mae eu cryfderau, eu sgiliau a'r rôl sydd ganddynt wrth gefnogi dysgu a datblygiad eu plentyn yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Dylai ysgolion fod yn rhagweithiol wrth feithrin perthynas â theuluoedd, a chymryd yr amser i ddeall y ffordd orau y gallant ymgysylltu â nhw.

***Cwricwlwm***

Mae Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar bedwar diben sy'n dangos hyd a lled y manteision academaidd, llesiant a chymdeithasol cysylltiedig pan fydd dysgwyr yn mynd i'r ysgol. Oherwydd y cysylltiadau hirsefydledig rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad, llesiant a dinasyddiaeth, mae gwella presenoldeb wedi bod yn nod polisi pwysig i lywodraethau, awdurdodau lleol ac ysgolion unigol ers amser maith.

Mae'r canllawiau'n tynnu sylw at y ffaith y bydd presenoldeb yn gwella os bydd dysgwyr am ddod i'r ysgol o'u gwirfodd eu hunain ac os yw'r hyn a gynigir iddynt yn ddiddorol ac yn berthnasol iddynt. Disgwylir i ddatblygiad y Cwricwlwm i Gymru a'r galluedd a'r hyblygrwydd lleol y mae'n eu rhoi i ysgolion i ddiwallu anghenion eu dysgwyr chwarae rôl bwysig o ran ymgysylltu dysgwyr. Mae'r ysgolion sydd wedi cynyddu lefelau presenoldeb fel arfer wedi mynd ati'n ofalus i ddylunio arlwy eu cwricwlwm ac wedi gwella eu haddysgeg drwy ddatblygiad proffesiynol ac ymarfer a lywir gan ymchwil.

***Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau[1] o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.***

Nid oes unrhyw newid ym mholisi Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth ar gyfer presenoldeb. Mae'r canllawiau'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisi cyfredol gan gyrff statudol ac yn cyfeirio at yr arferion gorau.

Mae'n amlwg bod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau ychwanegol i gynnal presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, heb unrhyw reolaeth dros lawer o'r rhwystrau hynny. Mae'r canllawiau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd bod ysgolion/ymarferwyr yn cydnabod ac yn ystyried y rhain ac yn ymwybodol o amgylchiadau unigol plentyn, a sut y gallai'r rhain effeithio ar bresenoldeb a lefelau ymgysylltu â'r ysgol. Dylai darparu cymorth

[1] Efallai y byddwch, er enghraifft, yn ystyried sut y byddai eich polisi yn effeithio ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc yn wahanol: blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal; plant LHDTC+. Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn ac na fydd pawb o fewn y carfanau hyn yn rhannu'r un profiad.

sympathetig, personol a seiliedig ar wybodaeth i ddysgwyr gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, yn ogystal â'u teuluoedd.
Mae'r canllawiau newydd wedi cael eu llunio i helpu i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael yn yr ysgol. Rhagwelir y bydd y canllawiau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant o bob oedran ac o bob grŵp.

***Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.***

Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023 cynhaliodd Cymru Ifanc ymgyngoriadau ar ran Llywodraeth Cymru ar y canllawiau presenoldeb newydd. Roedd cyfanswm o 175 o blant a phobl ifanc 6 – 17 oed yn cymryd rhan mewn chwe ysgol ledled Cymru.

Drwy sesiynau rhyngweithiol, anogwyd disgyblion i rannu eu meddyliau, eu pryderon a'u hawgrymiadau ar y canllawiau drafft. Roedd y broses ymgynghori yn cynnwys cyflwyniadau, sesiwn gychwynnol , ymarfer datganiad a thrafodaethau grŵp gyda chwestiynau yn cael eu cylchdroi i hwyluso casglu adborth cynhwysfawr. Roedd y sesiynau hefyd wedi'u cynllunio i sicrhau cynwysoldeb ac ymgysylltiad ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan. Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau yn y lleoliadau ysgol am awr gyda 10 disgybl yn yr un grwpiau blwyddyn.

Fe wnaeth disgyblion o bob un o'r chwe ysgol amlygu tlodi fel problem sylweddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Roeddent yn cydnabod bod y canllawiau drafft a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael dechrau teg mewn bywyd (tudalen 13). Fodd bynnag, nodwyd bod tlodi yn parhau i fod yn rhwystr rhag cyflawni'r nod hwn. Mynegodd pobl ifanc eu pryderon y gallai ffactorau sy'n gysylltiedig â thlodi rwystro eu presenoldeb a'u haddysg. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith bod rhaid i rai myfyrwyr dalu am gostau teithio, gwisg ysgol a chinio ysgol a oedd yn achosi heriau ariannol yn enwedig gyda'r cynnydd mewn costau byw. Roeddent yn teimlo bod y costau ychwanegol hyn yn creu rhwystrau i rai unigolion fynd i'r ysgol yn rheolaidd, gan effeithio ar eu hawliau i addysg.

Pwysleisiodd y bobl ifanc yr angen am fwy o gefnogaeth mewn meysydd sy'n gysylltiedig â thlodi. Maen nhw'n credu y byddai mynd i'r afael â beichiau ariannol, fel darparu cymorth ar gyfer costau teithio, gwisgoedd ysgol a phrydau bwyd yn lleddfu rhwystrau i bresenoldeb ac yn cefnogi eu hawliau i addysg. Hefyd, soniodd un ysgol am achos presenoldeb person ifanc a adawodd yn y pen draw oherwydd bwlio cysylltiedig â'i wahaniaethau, gan nodi bod angen mwy o addysg ynghylch amrywiaeth a derbyn.

Amlygodd disgyblion Blwyddyn 10 yn benodol yr effaith negyddol bosibl ar iechyd meddwl pan nad yw unigolion na all fynychu'r ysgol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth yn gymwys i dderbyn gwobrau presenoldeb. Roeddent yn teimlo y dylid rhoi ystyriaethau i bobl ifanc â phroblemau llesiant meddyliol er mwyn osgoi achosion o allgáu neu stigma.

Yn gyffredinol, mae'r adborth a gawsom gan y disgyblion wedi bod yn amhrisiadwy, gan gynnig inni ddealltwriaeth ddofn o'u safbwyntiau a'u hanghenion.

Yn ogystal â'r ymgysylltiad hwn, cynhaliwyd trafodaethau grŵp ffocws gyda dysgwyr a hwyluswyd gan Plant yng Nghymru fel rhan o'r adolygiad presenoldeb uchod. Cafodd y safbwyntiau a fynegwyd yn y sesiynau hyn yna eu defnyddio i lywio'r argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad, a ddefnyddiwyd wedyn i lywio'n uniongyrchol y canllawiau presenoldeb newydd.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

***Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?***

Dylai'r canllawiau hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc a'u teuluoedd ac nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol y mae angen eu lliniaru. Nod y canllawiau hyn yw darparu cymorth i leoliadau ac ymarferwyr addysg i ddiwallu anghenion amrywiol plant a phobl ifanc a'u teuluoedd a dileu rhwystrau i addysg.

Nod y canllawiau yw helpu darparwyr addysg i ddeall y gwahanol resymau y tu ôl i absenoldebau ymhlith dysgwyr, a all weithiau darddu gartref, ac maent yn awgrymu ffyrdd o gefnogi anghenion gwahanol ddysgwyr, gan sicrhau bod ymyraethau wedi'u teilwra.

***Sut y mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol?***

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Gwelliannau (X) | Heriau (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Erthygl 2 - *Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn berthnasol i bawb beth bynnag fo'u hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag y maen nhw'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.* | X | | Mae'r canllawiau'n cydnabod bod llawer o ffactorau sy'n cyfrannu at beidio â mynychu'r ysgol, gan gynnwys, ymysg pethau eraill:<br>• plant sy'n derbyn gofal<br>• plant sydd wedi cael eu gwahardd o'r blaen<br>• gofalwyr ifanc<br>• rhai plant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a phlant sydd â Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant i rieni sy'n symud o le i le<br>• ceiswyr lloches, ffoaduriaid, mudwyr newydd a phlant gweithwyr mudol<br>• plant trawsryweddol, anneuaidd neu blant sy'n cwestiynu eu rhywedd<br>• plant yn y system cyfiawnder ieuenctid neu blant y mae eu rhieni yn y system gyfiawnder<br>• plant â phroblemau meddygol neu iechyd meddwl hirdymor<br>• plant sydd wedi profi trawma a/neu wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod<br>• plant i rieni sydd yn y lluoedd arfog<br>• plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o briodas dan orfod<br>• plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol, gan gynnwys plant sydd wedi cael eu masnachu<br>• plant a phobl ifanc i rieni digartref sy'n byw mewn llety dros dro, tai amlfeddiannaeth neu lety gwely a brecwast<br>• plant i rieni sy'n ffoi rhag trais domestig neu'n byw mewn lloches i fenywod<br>• plant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu'n breifat<br>• rhieni ifanc a menywod ifanc sy'n feichiog |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant<br>• plant sy'n profi poen mislif difrifol neu broblemau iechyd eraill sy'n gysylltiedig â'r mislif |
| Erthygl 3 - *Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn* | X | | Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol, rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol. Mae'n ddogfen ymarferol ar gyfer arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill, sy'n nodi'r dulliau gweithredu a'r adnoddau y gellir eu defnyddio gan ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol i helpu i sicrhau lefelau uchel o ymgysylltu a phresenoldeb ymhlith dysgwyr.<br><br>Mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod na ellir ystyried presenoldeb ar wahân a bod gan lawer o sefydliadau ran i'w chwarae o ran mynd i'r afael â'r rhwystrau i bresenoldeb. Mae'r canllawiau'n amlinellu pwysigrwydd bod gan ysgolion drefniadau gweithio amlasiantaeth cryf i gefnogi pob dysgwr. |
| Erthygl 12 - *Mae gan bob plentyn hawl i fynegi eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau ynghylch pob mater sy'n effeithio arnynt, ac i bobl ystyried eu barn a'u cymryd o ddifrif. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob* | X | | Mae'r canllawiau'n pwysleisio bod ymdeimlad dysgwyr o berthyn a hunanwerth yn dibynnu ar y graddau y maent yn teimlo eu bod yn bwysig i'r staff a bod y staff yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn cymryd yr amser i ddod i'w hadnabod. Mae cydberthnasau cadarnhaol rhwng y staff a'r dysgwyr yn ffactor allweddol o ran a yw dysgwyr am ddod i'r ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *amser, er enghraifft yn ystod achosion mewnfudo, penderfyniadau tai neu fywyd cartref y plentyn o ddydd i ddydd.* | | | Dull gweithredu personol, empathetig a hyblyg sydd wedi'i deilwra at bob dysgwr ac sy'n cydnabod ei unigolrwydd sydd fwyf tebygol o lwyddo.<br><br>Mae'r canllawiau'n amlinellu pwysigrwydd bod gan ysgolion drefniadau ar gyfer clywed llais disgyblion ar ystod eang o faterion yn ymwneud â gwella ysgolion. Mae'n pwysleisio'r angen i staff ystyried safbwyntiau disgyblion o ddifrif a gweithredu arnynt, a'r angen i arweinwyr allu dangos effaith cyfranogiad ar gynllunio gwella ysgolion. |
| *Erthygl 18* - Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb am fagu eu plentyn a dylent bob amser ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn. Rhaid i lywodraethau gefnogi rhieni drwy greu gwasanaethau cymorth i blant a rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen ar rieni i fagu eu plant. | X | | Mae'r canllawiau'n pwysleisio pwysigrwydd sefydlu cydberthnasau cadarnhaol ac ymddiriedus gyda rhieni a theuluoedd er mwyn gwella lefelau ymgysylltu dysgwyr â bywyd yr ysgol, ac yn ei dro wella eu presenoldeb a'u cyfranogiad. Mae'r canllawiau yn amlinellu'r angen i gynnwys rhieni a theuluoedd yng nghymuned yr ysgol mewn ffordd ystyrlon er mwyn eu helpu i ddeall manteision addysg a'r angen am bresenoldeb da yn yr ysgol, yn ogystal â'u helpu i wybod beth yw'r ffordd orau o fynd drwy'r opsiynau addysg sydd ar gael i'w plentyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 19* - Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt. | X | | Mae absenoldeb o'r ysgol yn risg diogelu bosibl ac mae olrhain a monitro presennol yn chware rôl hollbwysig o ran diogelu. |
| *Erthygl 28* - Mae gan blant yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas a hawliau plant. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | X | | Mae'r canllawiau'n rhoi cyngor ac yn cyfeirio at arferion da ar sut i gefnogi dysgwyr i ymgysylltu â'u haddysg. Mae'n nodi ac yn codi ymwybyddiaeth o nifer o heriau y gall dysgwyr eu hwynebu o ran mynychu'r ysgol yn rheolaidd, a sut i gefnogi dysgwyr a theuluoedd i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hwynebu a galluogi plant i wireddu eu potensial. |

4. **Cyfathrebu â Phlant a Phobl ifanc**

***Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynglŷn â'ch cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?***

Bydd fersiwn 'Hawdd ei Deall' o'r canllawiau hefyd yn cael eu llunio.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Plant yng Nghymru/Cymru Ifanc i drefnu sesiynau ymgysylltu dilynol gyda phlant a phobl ifanc i roi gwybod iddynt sut yr ymdriniwyd â'u hadborth a sut y gall eu mewnbwn barhau i lywio polisi.

## 5. Monitro ac Adolygu

***Amlinellwch pa ddulliau monitro ac adolygu y byddwch yn eu rhoi ar waith i adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn.***

Gan ddefnyddio rhwydweithiau presennol, bydd effaith a gweithrediad y canllawiau yn cael eu trafod gydag ysgolion ac awdurdodau lleol. Bydd adborth o'r ymgysylltiad hwn yn mynd ymlaen i lywio unrhyw fersiynau pellach o'r canllawiau a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

***Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r ffordd o'i weithredu?***

Nid yw'n berthnasol ar hyn o bryd.